Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru

Parthau Cyfyngu

Helpu i ddiogelu dioddefwyr

HAWDD EI DDEALL

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth gyffredinol.

Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn esbonio'r trefniadau sy'n berthnasol i chi.

Fy Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (VLO) yw:

Enw: _____

Rhif cyswllt: _____



Beth yw parth cyfyngu?



Mae parth cyfyngu yn amod trwydded newydd, difrifol.

Mae amodau trwydded yn rheolau y mae'n rhaid i droseddwr eu dilyn ar ôl gadael y carchar.

Mae parth cyfyngu yn golygu bod yn rhaid i'r troseddwr aros mewn ardal arbennig.
Maent yn cael eu defnyddio i helpu i ddiogelu dioddefwyr a'r cyhoedd.

Mae parthau cyfyngu yn cael eu monitro gyda thag electronig.

Mae parth cyfyngu yn wahanol i barth gwahardd. Mae parth eithrio yn atal troseddwr rhag mynd i ardal arbennig.

Pryd y gellir defnyddio parth cyfyngu?

Parth cyfyngu yw un o'r amodau trwydded mwyaf llym sydd ar gael. Nid ydynt yn addas ym mhob achos.

Gellir eu defnyddio pan:

- Bydd troseddwr wedi cyflawni troseddau difrifol, gan gynnwys troseddau rhywiol neu dreisgar neu ymddygiad gorfodaethol;
- Bydd y dioddefwyr yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr (VCS);
- Nid yw unrhyw amodau trwydded eraill yn briodol.

Weithiau gallai parth eithrio fod yn fwy addas.

Gallwch siarad â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr am fesurau a allai eich helpu i gadw'n ddiogel.

Bydd eich safbwyntiau yn cael eu rhannu gyda'r person sy'n gwneud y penderfyniadau am yr amodau trwydded.



Beth sy'n digwydd os bydd troseddwr yn torri amod parth cyfyngu?

Mae troseddwr yn torri amod parth cyfyngu pan fyddant yn gadael yr ardal y mae'n rhaid iddynt aros ynddi. Mae hyn yn golygu eu bod wedi torri'r rheolau ar eu trwydded.



Bydd y Gwasanaeth Prawf yn asesu'r amgylchiadau ac yn penderfynu ar y camau gweithredu. Byddant yn ystyried yr achos o dorri'r amod o ddifri.

Gall y Gwasanaeth Prawf ofyn i'r troseddwr gael ei ddychwelyd i'r carchar. Gelwir hyn yn adalw i'r carchar. Bydd y carcharor ond yn cael ei ddychwelyd i'r carchar os bydd yr hyn sydd wedi digwydd yn ddigon difrifol.

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn penderfynu a ellir parhau i gadw pobl yn ddiogel.

Weithiau gall y Gwasanaeth Prawf gymryd camau eraill. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddant yn rhoi rhybudd neu'n ychwanegu amodau eraill arall at drwydded. Nid ydynt bob amser yn ymateb ar unwaith.

Bydd eich VLO yn eich diweddaru. Gallwch gysylltu â nhw os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Os ydych chi'n teimlo eich bod mewn perygl uniongyrchol neu'n ofni am eich diogelwch, ffoniwch yr heddlu ar 999.

Am faint mae parth cyfyngu yn para?

Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn ysgrifennu atoch bob blwyddyn i roi gwybod i chi a yw'r parth cyfyngu yn parhau i fod ar waith.

Nid yw parth cyfyngu fel arfer yn para am y cyfnod llawn y bydd troseddwr ar drwydded. Y rheswm am hyn yw ei bod yn un o'r rheolau mwyaf llym y gall troseddwr ei derbyn.

Bydd y Gwasanaeth Prawf yn asesu a oes angen y parth cyfyngu o hyd. Byddant yn dweud wrthych os ydynt yn ystyried dileu'r parth cyfyngu.



Cyn y gwneir unrhyw benderfyniad:

- Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn cysylltu â chi
- Cewch amser i rannu eich safbwyntiau chi
- Gallwch siarad am yr amodau trwydded eraill, er enghraifft parth eithrio

Rhaid i'r gwasanaeth Prawf ystyried eich safbwyntiau cyn dileu'r parth cyfyngu.

Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Os oes gennych gwestiynau am barthau cyfyngu, siaradwch â'ch Swyddog Cyswllt Dioddefwyr. Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn fwy na pharod i :

- Esbonio beth yw parth cyfyngu
- Ateb eich cwestiynau
- Esbonio sut y gwneir penderfyniadau
- Rhoi gwybod i chi am wasanaethau cymorth

Cymorth i ddioddefwyr

Rydym yn deall y gallai fod gennych bryderon ynghylch rhyddhau troseddwr. Nid oes rhaid i chi ymdopi â'r pryderon hyn ar eich pen eich hun.

Os oes angen cymorth arnoch, neu os hoffech siarad â rhywun, gall eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr siarad â chi a'ch helpu i ddod o hyd i wasanaethau lleol.

Gallwch gysylltu hefyd â gwasanaethau cymorth cenedlaethol:

- **Cymorth i Ddioddefwyr – Llinell Gymorth Rhyddhau Troseddwyr:** 0808 168 9280
- **Llinell Gymorth Genedlaethol Cam-drin Domestig:** 0808 200 0247
- **Llinell Gymorth Genedlaethol Stelcian:** 0808 802 0300
- **Llinell Gymorth NSPCC :** 0808 800 5000
- **Llinell Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol:** 0808 500 2222
- **Llinell Gymorth Byw Heb Ofn (Cymru):** 0808 80 10 800



